@YrYsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

e-bost
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

# Caniatâd Cynllunio

# *Planning Permission*






Rydym wrth ein boddau i fedru rhannu gyda chi, rieni a gwarcheidwaid, ein bod wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu estyniad newydd i'r ysgol.

Byddwch yn cofio i ni rannu'r lluniau uchod gyda chi nôl yn 2022, cyn i'r cynlluniau fynd i gael eu craffu ar gyfer cael caniatâd. Bwriad yr estyniad newydd yw i ddarparu Canolfan Iaith newydd ar gyfer yr ardal yn ogystal â 10 ystafell ddosbarth newydd ar gyfer yr ysgol i gymryd lle y cabanau 'dros dro' sydd gyda ni yma ers dros ugain mlynedd.

Byddwch wedi sylwi yn ystod eich ymweliadau diweddar â'r ysgol ar gyfer nosweithiau rhieni, mabolgampau, Gŵyl Haf ac ati fod cyflwr rhai ardaloedd yr ysgol wedi dirywio'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac felly rydym wrth ein boddau fod yna gynllun i wella'r adnoddau yma ar gyfer plant yr ysgol.

Mi gofiwch mai grant o £5.7 miliwn o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru sy'n ariannu'r prosiect hwn, ac rydym yn hynod ddiolchgar amdano.

Ymlaen felly i 2025, pan fydd mwy o gynllunio a pharatoi ar gyfer y cyfnod cyffrous hwn yn mhennod nesaf yr ysgol.

Yn gywir,
Gareth L James, Pennaeth Dros Dro
18/12/2024

*We are delighted to be able to share with you that we have received planning permission for the construction of a new extension to the school.*

*You will remember that we shared the above illustrations with you back in 2022, before the plans were sent to be scrutinized for planning permission. The intention of the new extension is to provide a new Language Centre for the area as well as 10 new classrooms for the school to replace the 'temporary' cabins we have had here for over twenty years.*

*You will have noticed during your recent visits to the school for parents' evenings, Sports day, Summer Festival etc. that the condition of some areas of the school has deteriorated immensely in recent years, and so we are delighted that there is a plan to improve the resources for our children.*

*You may remember that this project is funded through a grant of £5.7 million from the Welsh Government, for which we are extremely grateful.*

*So on to 2025, when there will be more planning for this exciting period in the school's next chapter.*

*Yours sincerely,*
*Gareth L James, Acting Headteacher*
*18/12/2024*